## ATODLEN 1

## GWERTHOEDD TERFYN, GODDEFIANNAU, ETC.

# RHAN I

## *SULPHUR DIOXIDE*

**Gwerthoedd terfyn** *sulphur dioxide*

**1.1**

| | Cyfnod Cyfartaleddu | Gwerth terfyn | Goddefiant*(1)* | Erbyn pryd y mae'n rhaid cyrraedd y gwerth terfyn |
|---|---|---|---|---|
| **1.** Terfyn gwerth fesul – awr ar gyfer diogelu iechyd pobl | 1 awr | 350 µg/$m^3$, y mae'n rhaid peidio â mynd yn uwch nag ef fwy na 24 gwaith y flwyddyn galendr | 150 µg/$m^3$ (43%) ar 19 Gorffennaf 1999, gan ostwng ar 1 Ionawr 2001 a phob 12 mis wedyn yn ôl canrannau blynyddol cyfartal nes cyrraedd 0% erbyn 1 Ionawr 2005 | 1 Ionawr 2005 |
| **2.** Gwerth terfyn dyddiol ar gyfer diogelu iechyd pobl | 24 awr | 125 µg/$m^3$, y mae'n rhaid peidio â mynd yn uwch nag ef fwy na 3 gwaith y flwyddyn galendr | Dim un | 1 Ionawr 2005 |
| **3.** Gwerth terfyn ar gyfer diogelu ecosystemau | Y flwyddyn galendr a'r gaeaf (1 Hydref i 31 Mawrth) | 20 µg/$m^3$ | Dim un | 19 Gorffennaf 2001 |

**Trothwy rhybuddio ar gyfer** *sulphur dioxide*

**1.2** 500 µg/m3 wedi'i fesur dros dair awr o'r bron mewn mannau sy'n gynrychioliadol o ansawdd yr aer dros o leiaf 100 $km^2$ neu barth neu grynhoad cyfan, p'un bynnag yw'r lleiaf.

(**1**) Mae'r ffigurau ar gyfer Goddefiannau ar gyfer pob un o'r llygrynnau perthnasol a roddir yn yr Atodlen hon wedi'u cyfrifo o'r rhai a roddir yn Atodiad 1 i Gyfarwyddeb 99/30/EC. Rhoes honno ffigur uwchlaw gwerth terfyn pob llygryn perthnasol, gan ostwng yn ôl canrannau blynyddol cyfartal o'r dyddiad y daeth y Gyfarwyddeb honno i rym ym 1999.

**Isafswm y manylion y mae'n rhaid trefnu eu bod ar gael i'r cyhoedd pan eir yn uwch na'r trothwy rhybuddio ar gyfer** *sulphur dioxide*

**1.3** Dylai'r manylion y mae'n rhaid trefnu eu bod ar gael i'r cyhoedd gynnwys o leiaf :

— dyddiad, awr a lle y digwyddiad a'r rhesymau drosto, os ydynt yn hysbys;

— unrhyw ragolygon ar gyfer:

— newidiadau mewn crynodiad (gwella, sefydlogi, neu ddirywio), ynghyd â'r rhesymau dros y newidiadau hynny;

— yr ardal ddaearyddol o dan sylw;

— parhad y digwyddiad;

— y math o boblogaeth a allai fod yn sensitif i'r digwyddiad;

— y rhagofalon sydd i'w cymryd gan y boblogaeth sensitif o dan sylw.